

Gwahoddiad i Gynnig Tendr:

Ymchwil feintiol ar gyfer ymgysylltiad y cyhoedd gyda chynnwys a gweithgaredd llenyddol yng Nghymru

Brîff

Mae **Llenyddiaeth Cymru** yn dymuno comisiynu ymchwil feintiol ar gyfer ymgysylltiad y cyhoedd gyda chynnwys a gweithgaredd llenyddol yng Nghymru er mwyn llywio a siapio ein **strategaeth, rhaglennu a chomisiynau**. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â llenyddiaeth trwy **ddarllen, cyfranogiad creadigol a mynychu digwyddiadau**. Hyderwn y bydd canlyniadau'r arolwg hwn yn ein cynorthwyo i ehangu ac ymestyn cyrhaeddiad a chynrychiolaeth y sector.

Cyd-destun

Mae gennym ymwybyddiaeth gref o anghenion a gofynion ein cleientiaid o'n gweithgareddau monitro (gan gynnwys Arolygon Rhanddeiliaid blynyddol) a'n sgysiau cyson gydag awduron, cynulleidfaoedd a phartneriaid. Er hynny, mae gennym ddiddordeb mewn ymgorffori adborth, syniadau ac argymhellion o sampl ehangach, gan gynnwys **cynulleidfaoedd newydd**, er mwyn sicrhau bod ein strategaeth yn estynedig ac yn berthnasol i **Gymru gyfan**.

Bydd yr ymchwil hwn yn creu sylfaen gynhwysfawr o dystiolaeth ar bwy sydd, a phwy sydd ddim, yn cyrchu cynnwys a gweithgaredd llenyddol yng Nghymru ar hyn o bryd, yn ogystal â sut a pham mae'r cynulleidfaoedd hyn yn ymgysylltu â gwahanol fathau o lenyddiaeth. Bydd y data hwn yn ein helpu i ddeall ymddygiadau, canfyddiadau a diddordebau pob cynulleidfa, yn hytrach na'r rhai yr ydym eisoes yn ymgysylltu â nhw yn unig. Mae yna hefyd ddiffyg tystiolaeth gynhwysfawr ar sut a pham mae'r ymgysylltiad hwn yn cael ei effeithio gan ffactorau demograffig megis **statws economaidd-gymdeithasol, ethnigrwydd neu anabledd**.

Bydd yr ymchwil hwn yn creu data a fydd yn cael ei ddefnyddio i lywio strategaeth a rhaglen gweithgaredd Llenyddiaeth Cymru ar gyfer 2022-2025. Trwy ddeall pwy sydd, a phwy sydd ddim, yn cyrchu gwahanol fathau o ymgysylltiad â llenyddiaeth, a pham, gallwn weithio tuag at sicrhau fod llenyddiaeth yng Nghymru yn **hygyrch i bawb**.

Am Llenyddiaeth Cymru

Llenyddiaeth Cymru yw'r cwmni cenedlaethol ar gyfer datblygu llenyddiaeth. Ein gweledigaeth yw Cymru sydd yn **grymuso, yn gwella, ac yn cyfoethogi bywydau** drwy lenyddiaeth. Rydym yn elusen gofrestredig, a gweithiwn i **ysbrydoli cymunedau, datblygu awduron, a dathlu diwylliant llenyddol Cymru**. Mae Llenyddiaeth Cymru yn gweithio yn y Gymraeg, y Saesneg, ac yn ddwyieithog ar draws Cymru. Ein noddwr yw Syr Phillip Pullman.

Y Cytundeb

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn arolygu cyfran o boblogaeth Cymru er mwyn adlewyrchu arferion a barn y boblogaeth gyfan ar ddarllen ac ysgrifennu. Er mwyn sicrhau bod yr arolwg yn cyflawni'r nod hwn, dylai'r arolwg ddefnyddio strategaeth **Samplu ar Hap Haenedig**.

Cymesur yn ôl yr haenau **grŵp economaidd-gymdeithasol, ethnigrywdd ac anableddau neu salwch**.

Nod bras yr arolwg yw:

- Deall sut mae cynulleidfaoedd yn **ymgysylltu** â gweithgaredd a chynnwys llenyddol **ar hyn o bryd**.
- Deall pa weithgaredd a chynnwys llenyddol sydd o'r **diddordeb mwyaf** i gynulleidfaoedd.
- Darganfod unrhyw **gyfleoedd** ar gyfer gweithgaredd a chynnwys llenyddol newydd a fyddai'n **apelio** at gynulleidfaoedd newydd ac ehangach.
- Deall sut mae ffactorau megis **statws economaidd-gymdeithasol, ethnigrywdd ac anableddau neu salwch** yn effeithio ar ymgysylltiad presennol a phosibl gyda gweithgaredd a chynnwys llenyddol.

Rydym yn diffinio ymgysylltu â gweithgaredd a chynnwys llenyddol fel:

- **Darllenwyr** – unigolion sydd yn darllen ffuglen, barddoniaeth neu ffeithiol greadigol drwy ffurf llyfrau, cylchgronau, llyfrau sain neu gynnwys ysgrifenedig ar-lein arall.
- **Cyfranogi** – unrhyw ymgysylltiad artistig â llenyddiaeth, ar-lein neu wyneb yn wyneb, gan gynnwys ysgrifennu creadigol (yn unigol neu mewn gweithdai), perfformio, neu weithgaredd traws-gelfyddyd.
- **Mynychu Digwyddiadau** – unrhyw ddigwyddiadau llenyddol byw neu wedi'u recordio ymlaen llaw (ar-lein neu wyneb yn wyneb) gan gynnwys gwyliau llenyddol, stomp, lansiadau llyfrau, grwpiau darllen neu bodlediadau llenyddol.

Amserlen a Ffi

Rydym yn rhagweld y bydd yr ymchwil yn cychwyn erbyn diwedd **Mehefin 2021**, a bydd angen ei gwblhau erbyn canol **Awst 2021**.

Hoffem wahodd cynigion i ymgymryd â'r ymchwil uchod. Bydd y ffi gytunedig yn cael ei dalu mewn dau randaliad – 60% ar gychwyn y prosiect a 40% ar ôl ei gwblhau. Disgwyliwn i'r gost ar gyfer y prosiect fod o gwmpas **£5,000 – £7,000**.

Sut i Ymgeisio

Os gwelwch yn dda, cyflwynwch ddyfynbris ynghyd â **disgrifiad byr** ohonoch chi / eich cwmni, yn ogystal â gwybodaeth am o leiaf **un enghraifft berthnasol** o brosiect ymchwil i'r farchnad blaenorol yr ydych wedi ei wneud yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn ogystal, ychwanegwch ddyfynbris ar gyfer ymgymryd â'r prosiect hwn, gan gynnwys amserlen ar gyfer y prosiect, faint o ymatebwyr y byddwch yn cyrchu, a pha werthusiad o'r canlyniadau y gallwn ei ddisgwyl ar gyfer y ffi dan sylw. Byddwn hefyd yn ystyried nifer o opsiynau prisio o fewn y dyfynbris.

Cyflwynwch y wybodaeth o fewn un ddogfen os gwelwch yn dda, er mae croeso i chi hefyd gynnwys unrhyw ddogfennau atodol neu ddolenni perthnasol. Dylai'r cyfan gael ei anfon at post@llynyddiaethcymru.org gyda'r pennawd '**Dyfynbris Ymchwil Feintiol**.'

Dyddiad Cau: 5.00 pm (BST), Dydd Llun 7 Mehefin 2021